

## **Cyfarfod Grŵp Cynllunio'r Gymraeg ac Addysg**

**Dydd Mercher 15.03.2022**

### **Microsoft Teams**

#### **NODIADAU**

#### **Mynychwyr**

- Catrin James, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS)
- Gethin Rhys, Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
- Elin Maher, Rhieni dros Addysg Gymraeg
- Eleanor Jones, CGGC
- Susie Ventris Field, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA)
- David Egan, Llywodraeth Cymru
- Rachel Wrathall, Achub y Plant Cymru
- Rebecca Falvey, RSPB Cymru
- Amy Bainton, Barnardos Cymru
- Michelle Gunn, Ymddiriedolaeth y Tywysog
- Suzanne Sarjeant, Llywodraeth Cymru
- Dan Roberts, Canolfan Cydweithredol Cymru
- Kathryn Robson, Dysgu Oedolion Cymru
- Uzo Iwobi, Race Council Cymru
- Lowri Jones, Mentrau Iaith Cymru
- Natalie Zhivkova, CGGC
- Ben Lloyd, CGGC
- Fiona Harris, CGGC

#### **Ymddiheuriadau**

- David Hagendyk, Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Phil Stubbington, Ymddiriedolaeth John Muir
- Bryn Hall, Clinks
- Nadine Honeybone, The Autism Directory
- Lindsay Brewis, SNAP Cymru

#### **Croeso a Chyflwyniadau**

#### **Cofnodion o'r cyfarfod Gweinidogol diwethaf**

I'w cymeradwyo yn y cyfarfod nesaf â'r Gweinidog. Aelodau i anfon unrhyw newidiadau.

## **Cyflwyniad gan Dr Suzanne Sarjeant a David Egan, Llywodraeth Cymru ar Ysgolion Cymunedol**

Canolbwyntio ar bob ysgol yn gweithredu fel Ysgol Gymunedol, yn estyn allan i deuluoedd a'r cymunedau ehangach, ac yn arbennig o bwysig i ardaloedd dan anfantais. Mae angen arweinyddiaeth ar lefelau gwahanol a dull gweithredu wedi'i deilwra.

Lleisiodd aelodau bryderon ynghylch cyllid, dulliau cymorth, gallu'r sector i ymhél ag ysgolion. Cadarnhaodd LLC fod angen canllawiau ymarferol ar ysgolion i wneud cysylltiadau.

Dadleuodd DR dros rôl Mentrau Cymdeithasol mewn trafodaethau, ac nid y sector gwirfoddol yn unig

CJ – awyddus i'r sector gwirfoddol fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith a'r canllawiau. Cadarnhaodd SS y byddai'n cael ei lunio ar y cyd.

SVF – pryderon na ddylai cymuned fod yn lleol yn unig; mae angen ystyried partneriaethau rhyngwladol hefyd

NZ – mae'r sector gwirfoddol angen cysylltiad cyffredinol ag ysgolion ar lefel genedlaethol. Fel hyn, ni fydd yn dibynnu ar feithrin llawer o gysylltiadau unigol â phob elusen / grŵp cymunedol / ysgol. Gallai CGGC weithredu fel y cysylltiad hwnnw pe bai'n gallu cymryd rhan.

RW – cadarnhaodd fod gwerthusiad o Roi Plant yn Gyntaf wedi'i gynnal y llynedd a byddai'n gwirio a ellid rhannu'r canlyniadau

EJ – cyflwynodd enghraifft o ddefnyddio cysylltiadau â'r sector gyda phlant ag anawsterau dysgu a phroblemau ymddygiad a sut mae hyn wedi arwain at gyrhaeddiad gwell, a nawr, roeddent yn ceisio cynnwys y dull hwn ym Magloriaeth Cymru

RF – siaradodd am y rhaglen beilot Rheolwyr Cymunedol a ddefnyddiwyd i feithrin cysylltiadau rhwng ysgolion a chymunedau

SS – nododd fod cyfle i gyllido rolau dynodedig – efallai Rheolwyr Ysgolion Cymunedol / Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd – i eistedd y tu allan i'r ysgol, arbennig o bwysig i ysgolion uwchradd

GR – siaradodd am rwystredigaethau â Grŵp Rhanddeiliaid y Cwricwlwm, gan ofyn a oedd eu gwaith wedi'i ymwreiddio i mewn i Ysgolion Cymunedol

UI – gofynnodd pa mor gynhwysol oedd y gwaith i bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, gan ofyn i fod yn rhan o'r gwaith ar y cam cysyniad

### **Trafodaeth parthed eitemau ar gyfer y Cyfarfod Gweinidogol nesaf**

- Taith - Efallai bod cyfarfod ym mis Mehefin yn rhy hwyr, felly beth am lythyr neu gyfarfod â swyddogion?
- Problemau sy'n cyfrannu at y Cwricwlwm (dyddiad dechrau 1 Medi) – efallai gyda swyddogion. Pryderon ynghylch grwpiau gwahanol a gorgyffwrdd posibl
- Problemau ynghylch y Gymraeg – trefnu cyfarfod ar wahân o bosibl. LJ i wneud ymholiadau
- Cynllunio'r gweithlu ar gyfer y sector Cymraeg ac Ieuenctid
- AB - cytunodd â'r pwynt a godwyd gan Gymorth i Ferched Cymru yn y daenlen ynghylch adroddiad Estyn. Dylem gael canlyniad ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion mewn ysgolion erbyn mis Mehefin a byddem yn awyddus i glywed sut bydd Llywodraeth Cymru yn ymateb i hyn.

### **Eitemau Agenda posibl y cytunwyd arnynt**

- Cwricwlwm – 30 munud
- Taith – Lowri/Susie
- Cynllunio'r gweithlu
- Diweddariadau gan swyddogion

### **Camau gweithredu**

***CGGC i rannu'r cyflwyniad a rhoi cyfeiriadau e-bost aelodau i Suzanne***

***Aelodau i anfon unrhyw sylwadau parthed cofnodion y cyfarfod diwethaf gyda'r Gweinidog***

**Dysgu Oedolion Cymru i ddrafftio cwestiwn parthed Dysgu Cymunedol i Oedolion er mwyn i'r rheini sy'n gysylltiedig ei ddiwygio/ychwanegu ato CGGC i barhau i edrych ar sut i reoli problemau, parthed y Gymraeg ac a oes angen cyfarfod ar wahân**

**Ben i lunio templed papur ar y Cwricwlwm a gofyn i eraill am wybodaeth KR i ddrafftio cwestiwn, parthed Dysgu Cymunedol i Oedolion**

**SVF i ddrafftio pryderon, parthed Taith a'u hanfon at eraill am sylwadau**

**Aelodau i anfon unrhyw geisiadau i swyddogion siarad mewn cyfarfodydd cynllunio yn y dyfodol**